

Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais  
ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Penodi:**

**CYNGHORYDD CENEDLAETHOL AR  
GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD A  
MATHAU ERAILL O DRAIS AR SAIL  
RHYWEDD, CAM-DRIN DOMESTIG A  
THRAIS RHYWIOL**

**Dyddiad Cau: 14 Medi 2017**



## The Commissioner for Public Appointments

### Cynnwys

	Tudalen
<b>Gwneud Cais</b>	<b>3-4</b>
<b>Atodiad A: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</b>	<b>5-8</b>
<b>Atodiad B: Y broses ddethol</b>	<b>9-10</b>

## Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ynghyd â manyleb y person, y rôl a'r cyfrifoldebau, a manylion y broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-566bdf0fca49/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd wag ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

### CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### Amserlen Fras

Dyddiad cau:	14 Medi 2017
Llunio rhestr fer:	21 Medi 2017
Cyfweliadau:	6 Hydref 2017

Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

### **Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### **Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

### **Manylion Cyswllt:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am swydd y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol cysylltwch â **Bon Westcott, Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol:**

Ffôn: 03000 256783

E-bost: [Bon.Westcott@llyw.cymru](mailto:Bon.Westcott@llyw.cymru)

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk)

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i [www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus](http://www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus)

## **Penodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

### **Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn arbenigwr yn y maes hwn, gan roi safbwynt gwybodus ac annibynnol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth yn y meysydd hyn.

Swydd statudol yw hon a bydd ymgeiswyr yn destun proses benodi gyhoeddus. Bydd y Cynghorydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth i roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Y Prif Weinidog fydd yn penodi'r Cynghorydd.

Mae'r penodiad hwn yn cynnig cyfle gwych i feithrin gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda Gweinidogion Cymru a llunio polisiau ar lefel genedlaethol.

Swyddogaethau'r Cynghorydd, fel y'u nodir yn y Ddeddf, yw:

- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrhaedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig<sup>1</sup>;
- darparu cynorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrhaedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrhaedd at ddiben y Ddeddf, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- darparu cyngor a chynorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrhaedd at ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

---

<sup>1</sup> "mater cysylltiedig" yw achos o gam-drin y mae'r Cynghorydd Cenedlaethol yn ystyried ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldebau o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol rywedd, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

### Cyfrifoldebau Allweddol

Yn ymarferol, bydd rôl y Cynghorydd yn cynnwys gwneud y canlynol, ar ran Gweinidogion Cymru:

- cytuno ar gynllun blynyddol yn nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ganlynol;
- darparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn nodi sut y mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun blynyddol wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys datganiad am weithgareddau eraill y mae wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn;
- rhoi safbwynt arbenigol ar ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol a dangosyddion ategol, gan sicrhau bod ei brofiad a'i arbenigedd yn cael eu defnyddio ar draws Llywodraeth Cymru ac felly'n helpu i ddatblygu polisïau a phroses gwneud penderfyniadau mwy cydlynol a chyson;
- gweithio gyda Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt i sicrhau'r arfer gorau, a helpu i sicrhau'r ansawdd a'r safonau uchel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
- adolygu'r camau y mae pobl yn eu cymryd wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, a chynghori Gweinidogion Cymru am y canfyddiadau;
- annog pob gwasanaeth ac asiantaeth i berfformio i safon uchel, gan gynnwys cydlynu gwasanaethau, monitro perfformiad, gweithio gydag asiantaethau eraill, rhannu gwybodaeth a chasglu data;
- rhoi ffocws i sicrhau bod mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaeth ar draws y sector cyhoeddus;
- mynd i'r afael â diffyg cydlyniant strategol, anghysondeb mewn dulliau, a diffyg arweiniad ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru;
- gweithio gyda'r trydydd sector arbenigol a'r cyrff elusennol sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer dioddefwyr a'r rhai hynny sy'n goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn iddynt allu cyfrannu at ddatblygu polisïau, strategaethau a gwasanaethau;
- gweithio gyda dioddefwyr a'r rhai hynny sydd wedi goroesi trais i ddeall eu profiadau a'u safbwyntiau, ac i ystyried sut y gallai hynny ddylanwadu ar y polisïau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu;
- helpu Gweinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft;
- rhoi cyngor arbenigol i dîm ehangach Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig Llywodraeth Cymru ar ystod o faterion polisi gan gynnwys addysg a hyfforddiant;
- mynd i gyfarfodydd gyda Gweinidogion a swyddogion i drafod ei waith a'i gyfraniad at ddatblygu polisïau yn ehangach

# Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Manyleb y Person

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddangos yn ei gais ysgrifenedig ac yn y cyfweiliad sut y mae'n bodloni gofynion y swydd, gan gynnwys enghreifftiau o sut mae wedi dangos pob un o'r gofynion yn y gorffennol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i asesu a oes gan yr ymgeiswyr y nodweddion, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol wedi eu rhestru isod.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus yr awdurdod i ennyn parch a hygrededd Gweinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol, a bydd yn gallu dangos:

- (i) Profiad helaeth ar lefel uwch yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector, yn ogystal â meddu ar ddealltwriaeth gref o bolisïau a buddiannau cyhoeddus ym meysydd trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- (ii) Gwrthrychedd ac annibyniaeth ar y Llywodraeth a grwpiau â buddiant penodol (lle gallai fod gwrthdaro buddiannau).
- (iii) Hanes o graffu (profiad yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol).
- (iv) Profiad o ddatblygu a gweithredu blaenoriaethau strategol a gweithredol a datblygu argymhellion ymarferol i wella effaith ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.
- (v) Ymlyniad wrth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a'r lefelau uchaf o ddidwylledd a phriodoldeb proffesiynol

## Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad Gofynnol

### Hanfodol

- Arbenigedd proffesiynol ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r heriau y mae'r rhai sy'n dioddef yn eu hwynebu a'r cymorth y dylent ei gael.
- Profiad diweddar ar lefel uwch yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector, o hwyluso'r broses o reoli newid yn effeithiol.
- Safbwynt strategol, sgiliau arwain, dylanwadu a thrafod i ddwyn ynghyd ystod amrywiol o randdeiliaid mewnol ac allanol sydd ag ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau a blaenoriaethau.
- Hanes llwyddiannus o ddatblygu polisïau a gwasanaethau a dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau comisiynu o fewn cyfyngiadau cyllidebol tynn.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ardderchog, yn arbennig wrth drafod materion cymhleth a/neu sensitif.
- Ymwybyddiaeth wleidyddol.
- Gan ystyried proffil uchel y rôl, mae profiad o weithio gyda'r cyfryngau yn hanfodol.

### Dymunol

- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a rhoi arweiniad ar gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog.
- Dealltwriaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

### **Ffeithiau allweddol am y swydd**

Lleoliad:	Mae lleoliad deiliad y swydd yn hyblyg o fewn Cymru, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno.
Ymrwymiad Amser:	Bydd yr oriau y disgwylir y bydd eu hangen i gyflawni'r swydd hon yn rhai amser llawn (37 awr yr wythnos) ond yn agored i bobl sydd am weithio'n rhan-amser a rhannu'r swydd.
Hyd y penodiad:	Tymor swydd y cynghorydd fydd tair blynedd. Mae posibilrwydd o ailbenodi am dymor pellach o dair blynedd yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru, yn amodol ar arfarniad boddhaol o berfformiad, a chytundeb y naill ochr a'r llall. Fodd bynnag, chwe blynedd fydd uchafswm y gwasanaeth yn y swydd hon ac ni fydd deiliad y swydd yn cael ei ailbenodi.
Taliad Cydnabyddiaeth:	£60,050, a phensiwn a threuliau rhesymol.

**Cliriad diogelwch:** Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi cael cliriad diogelwch at lefel Gwiriad Diogelwch (SC) neu fod yn barod i sicrhau'r cliriad hwnnw. Cynhelir archwiliadau cyn-penodi hefyd ar euogfarnau troseddol a mewnfudo. Fel arfer mae'n cymryd 4-6 wythnos i gael y cliriad diogelwch. Caiff y swydd ei chynnig yn amodol hyd nes y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi pasio'r holl wiriadau, ac ni fydd yn cael ei gadarnhau yn y swydd hyd nes y bydd y gwiriadau hynny wedi eu bodloni.

### **Gwrthdaro buddiannau**

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### **Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>



## **Y broses ddethol**

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Libby Watkins, cyn Uwch-Asesydd Penodiadau Cyhoeddus, ac fe fydd hefyd yn cynnwys Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru, Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, a Kate Bennett Cyfarwyddwr Displaced People in Action a chyn Gyfarwyddwr Cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Medi 2017 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad yn ystod Hydref 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF103NQ.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Cyngorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais  
ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gyngorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddo yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am swyddi, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### **Ymholiadau**

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk).

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i [DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk).